OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2982 (Cy.249)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *29 Awst 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Awst 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:—

### Teitl, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 31 Awst 2001.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at "yr Atodlen" yn gyfeiriad at yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at offeryn y Gymuned Ewropeaidd yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw ac unrhyw ddiwygiad i'r cyfryw offeryn sydd mewn grym ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn.

(4) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "Rheoliad 805/68 y Cyngor" ("*Council Regulation 805/68*") yw Rheoliad (EEC) Rhif 805/68 y Cyngor ar drefniadaeth gyffredin y farchnad mewn cig eidion a chig llo(**3**);

ystyr "Rheoliad 1765/92 y Cyngor" ("*Council Regulation 1765/92*") yw Rheoliad (EEC) Rhif 1765/92 y Cyngor sy'n sefydlu system gynnal i gynhyrchwyr cnydau âr penodol(**4**);

ystyr "Rheoliad 2467/98 y Cyngor" ("*Council Regulation 2467/98*") yw Rheoliad (EC) Rhif 2467/98 y Cyngor ar drefniadaeth gyffredin y farchnad mewn cig dafad a chig gafr (**5**);

(**1**) 1986 p.5.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/ 672), trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan baragraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
(**3**) OJ Rhif L148, 28.6.68, t.24 (OJ / SE 1968(I) t.187) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1633/98 (OJ Rhif L210 28.7.98, t.17) (a oedd yn gymwys hyd at a chan gynnwys 31 Rhagfyr 1999).
(**4**) OJ Rhif L181, 1.7.92, t.12, yn ôl y diwygiad diweddaraf gan Reoliad(EC) Rhif 1624/98 y Cyngor (OJ Rhif L210, 28.7.98, t.3) (a oedd yn gymwys tan 30 Mehefin 2000).
(**5**) OJ Rhif L312, 20.11.98, t.1.

ystyr "Rheoliad 1251/99 y Cyngor" ("*Council Regulation 1251/99*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1251/99 y Cyngor sy'n sefydlu system gynnal i gynhyrchwyr cnydau âr penodol(**6**);

ystyr "Rheoliad 1254/99 y Cyngor" ("*Council Regulation 1254/99*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1254/99 y Cyngor ar drefniadaeth gyffredin y farchnad mewn cig eidion a chig llo(**7**)).

### Asesiad o gynhwysedd cynhyrchiol y tir

**2.**—(1) Mae paragraffau (2) a (3) o'r erthygl hon yn cael effaith at ddibenion asesu cynhwysedd cynhyrchiol uned o dir amaethyddol a leolir yng Nghymru, er mwyn penderfynu a yw yr uned honno'n uned fasnachol o dir amaethyddol o fewn ystyr is-baragraff (1) o baragraff 3 o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

(2) Pan ellir defnyddio'r tir dan sylw, wrth ei ffermio o dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu unrhyw dda byw, cnwd, ffrwythau, etc, fel a grybwyllir yn unrhyw un o gofnodion 1 i 7 yng ngholofn 1 o'r Atodlen, yna —

(a) yr uned a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o dir, a

(b) y swm a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen gyferbyn â'r uned gynhyrchu honno fydd y swm a benderfynir am y cyfnod o ddeuddeng mis yn dechrau gyda 12 Medi 1999 fel yr incwm blynyddol net gan yr uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw.

(3) Pan ellir defnyddio tir, wrth ei ffermio o dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu incwm blynyddol net a phan ddynodir hwnnw fel neilltir, fel a grybwyllir yng nghofnod 8 yng ngholofn 1 o'r Atodlen, yna —

(a) yr uned a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o'r tir, a

(b) y swm a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen gyferbyn â'r uned gynhyrchu honno fydd y swm a benderfynir am y cyfnod o 12 mis yn dechrau gyda 12 Medi 1999 fel yr incwm blynyddol net gan yr uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw.

(4) Mae'r Atodlen yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r Nodiadau i'r Atodlen.

### Diddymu

**3.** Drwy hyn diddymir Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) 1998(**8**) mewn perthynas â thir a leolir yng Nghymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**9**).

*D. Elis-Thomas*

29 Awst 2001 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) OJ Rhif. L160, 26.6.99, t.1 (a fu'n gymwys o 1 Gorffennaf 2000 ymlaen).

(**7**) OJ Rhif L160, 26.6.99, t.21 (ac eithrio. Erthygl 18, sy'n gymwys ers 1 Ionawr 2000).

(**8**) O.S. 1998/2025.

(**9**) 1998 p. 38.

## ATODLEN

Erthyglau 1(2) a 2

## RHAGNODI UNEDAU CYNHYRCHU A PHENDERFYNU INCWM BLYNYDDOL NET

| *Colofn 1*<br>*Defnydd ffermio* | *Colofn 2*<br>*Uned gynhyrchu* | *Colofn 3*<br>*Incwm blynyddol net gan uned gynhyrchu*<br>*£* |
|---|---|---|
| **1. Da byw** | | |
| Buchod llaeth: | | |
| Bridiau Ynysoedd y Sianel | buwch | 283 |
| Bridiau eraill | buwch | 335 |
| Buchod bridio cig eidion: | | |
| Ar dir cymwys o dan Reoliadau Da Byw Tir Uchel (Lwfansau Iawndal) 1996(a) | buwch | 50[(1)] |
| Ar dir arall | buwch | 41[(1)] |
| Gwartheg pesgi cig eidion (lled arddwys) | pen | 48[(2)] |
| Buchod llaeth i lenwi bylchau | pen | 41[(3)] |
| Mamogiaid: | | |
| Ar dir cymwys o dan Reoliadau Da Byw Tir Uchel (Lwfansau Iawndal) 1996 | mamog | 20[(4)] |
| Ar dir arall | mamog | 21[(5)] |
| Wŷn stôr (gan gynnwys wŷn benyw a werthir fel hesbinod blwydd) | pen | 0.87 |
| Moch: | | |
| Hychod a banwesi torrog | hwch neu fanwes | 90 |
| Moch porc | pen | 2.06 |
| Moch torri | pen | 3.66 |
| Moch bacwn | pen | 5.13 |
| Dofednod: | | |
| Ieir dodwy | aderyn | 1.08 |
| Brwyliaid | aderyn | 0.12 |
| Cywennod ar ddodwy | aderyn | 0.27 |
| Tyrcwn | aderyn | 1.23 |
| **2. Cnydau âr fferm** | | |
| Haidd | hectar | 158[(6)] |

| *Colofn 1* *Defnydd ffermio* | *Colofn 2* *Uned gynhyrchu* | *Colofn 3* *Incwm blynyddol net gan uned gynhyrchu* *£* |
|---|---|---|
| Ffa | hectar | 75[(7)] |
| Had glaswellt | hectar | 189 |
| Had llin | hectar | 137[(8)] |
| Ceirch | hectar | 142[(9)] |
| Rêp had olew | hectar | 164[(10)] |
| Pys: | | |
| Sych | hectar | 61[(11)] |
| Dringo | hectar | 257 |
| Tatws: | | |
| Cynnar cyntaf | hectar | 675 |
| Prif gnwd (gan gynnwys hadau) | hectar | 790 |
| Betys siwgr | hectar | 357 |
| Gwenith | hectar | 201[(12)] |
| **3. Cnydau garddwriaethol awyr agored** | | |
| Ffa cyffredin | hectar | 409 |
| Ysgewyll Brwsel | hectar | 1460 |
| Bresych, safwy a brocoli blaguro | hectar | 1684 |
| Moron | hectar | 2307 |
| Blodfresych a brocoli'r gaeaf | hectar | 1017 |
| Seleri | hectar | 6175 |
| Cennin | hectar | 3255 |
| Letys | hectar | 3914 |
| Wynwns: | | |
| Bylbiau sych | hectar | 1087 |
| Salad | hectar | 4477 |
| Bylbiau awyr agored | hectar | 1416 |
| Pannas | hectar | 2539 |
| Riwbob (naturiol) | hectar | 3096 |
| Maip a swêds | hectar | 1289 |
| **4. Cnydau gwarchodedig** | | |
| Narsisi gorfod | 1000 metr sgwâr | 8294 |

| *Colofn 1*<br>*Defnydd ffermio* | *Colofn 2*<br>*Uned gynhyrchu* | *Colofn 3*<br>*Incwm blynyddol net gan uned gynhyrchu*<br>*£* |
|---|---|---|
| Tiwlipau gorfod | 1000 metr sgwâr | 6226 |
| Madarch | 1000 metr sgwâr | 11272 |
| **5. Ffrwythau'r berllan** | | |
| Afalau: | | |
| Seidr | hectar | 603 |
| Coginio | hectar | 1412 |
| Melys | hectar | 1378 |
| Ceirios | hectar | 1297 |
| Gellyg | hectar | 1100 |
| Eirin | hectar | 1030 |
| **6. Ffrwythau meddal** | | |
| Cyrens Duon | hectar | 1093 |
| Eirin Mair | hectar | 1579 |
| Mafon | hectar | 2974 |
| Mefus | hectar | 3093 |
| **7. Amrywiol** | | |
| Hopys | hectar | 1700 |
| **8. Neilltir**(1) | hectar | 62 |

**NODIADAU I'R ATODLEN**

Erthygl 2(4)

**Nodyn i golofn 1**

**(1)** Ar gyfer y flwyddyn farchnata 1999/2000 mae hyn yn cyfeirio at dir sydd wedi'i neilltuo o dan Erthygl 2(5) o Reoliad 1765/92 y Cygnor, ac eithrio pan ddefnyddir tir felly (yn unol ag Erthygl 7(4) o Reoliad 1765/92 y Cyngor) ar gyfer darparu deunyddiau at gweithgynhyrchu cynhyrchion o fewn y Gymuned na fwriedir iddynt yn anad dim gael eu bwyta gan bobl neu anifeiliaid.
O 1 Gorffennaf 2000 ymlaen mae hyn yn cyfeirio at dir sydd wedi'i neilltuo o dan Erthygl 2(3) o Reoliad 1251/99 y Cyngor, ac eithrio pan ddefnyddir tir felly (yn unol ag Erthygl 6(3) o Reoliad 1251/99 y Cyngor) ar gyfer darparu deunyddiau at weithgynhyrchu cynhyrchion o fewn y Gymuned na fwriedir iddynt yn anad dim gael eu bwyta gan bobl neu anifeiliaid.

**Nodiadau i golofn 3**

**(1)** Didynner £103 o'r ffigur hwn yn achos anifeiliaid nad yw'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â'r premiwm at gynnal buchod sugno (premiwm buchod sugno) y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 4d o Reoliad 805/68 y Cyngor (Erthygl 6 o Reoliad 1254/99 y Cyngor)10.
Ychwaneger £26 at y ffigur yng ngholofn 3 yn achos anifeiliaid y mae'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â graddfa is y premiwm anarddwysáu y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 4h o Reoliad 805/68 y Cyngor (Erthygl 13 o Reoliad 1254/99 y Cyngor)10.
Ychwaneger £37 at y ffigur yng ngholofn 3 yn achos anifeiliaid y mae'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â graddfa uwch y premiwm anarddwysáu y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 4h o Reoliad 805/68 y Cyngor (Erthygl 13 o Reoliad 1254/99 y Cyngor)10.

**(2)** Dyma'r ffigur ar gyfer anifeiliaid a gedwir am 12 mis.
Didynner £82 yn achos anifeiliaid a gedwir am 12 mis nad yw'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â'r premiwm arbennig dros gadw anifeiliaid buchol gwryw (premiwm arbennig cig eidion) y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 4b o Reoliad 805/68 y Cyngor (Erthygl 4 o Reoliad 1254/99 y Cyngor)10.

Ychwaneger £26 at y ffigur yng ngholofn 3 yn achos anifeiliaid a gedwir am 12 mis y mae'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â graddfa is y premiwm anarddwysáu .
Ychwaneger £37 at y ffigur yng ngholofn 3 yn achos anifeiliaid a fyddai'n cael eu cadw am y cyfnod hwnnw ac y mae'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â graddfa uwch y premiwm anarddwysáu .
Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai na 12 mis ac nad yw'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnws swm ynglŷn â'r premiwm arbennig cig eidion, cyfrifir yr incwm blynyddol net drwy ddidynnu £82 o'r ffigur yng ngholofn 3 ac wedyn gwneud addasiad pro rata o'r ffigur canlyniadol.
Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai na 12 mis ac y mae'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnws swm ynglŷn â'r premiwm arbennig cig eidion, cyfrifir yr incwm blynyddol net i ddechrau drwy ddidynnu £82 o'r ffigur yng ngholofn 3, wedyn gwneud addasiad pro rata o'r ffigur canlyniadol, wedyn ychwanegu at y ffigur hwnnw y swm o £82 ac (lle mae'r incwm blynyddol net yn cynnwys swm ynglŷn â phremiwm anarddwysáu ) y swm o £26 (lle telir y premiwm anarddwysáu ar y raddfa is) neu £37 (lle telir y premiwm anarddwysáu ar y raddfa uwch).

**(3)** Mae hwn yn dangos y ffigur ar gyfer anifeiliaid (gan anwybyddu oedran) a gedwir am 12 mis. Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai na 12 mis rhaid gwneud addasiad pro rata i'r ffigur hwn.

**(4)** Didynner £22 o'r ffigur hwn yn achos anifeiliaid nad yw'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â'r premiwm ar gyfer gwrthbwyso colli incwm gan gynhyrchwyr cig defaid (premiwm blynyddol defaid) y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 5 o Reoliad 2467/98 y Cyngor.

**(5)** Didynner £17 o'r ffigur hwn yn achos anifeiliaid nad yw'r incwm blynyddol ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â'r premiwm defaid blynyddol.

**(6)** Didynner £241 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â iawndal y gall cynhyrchwyr cnydau âr wneud cais amdano (taliad arwynebedd) y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 2 o Reoliad 1765/92 y Cyngor (Erthygl 2 o Reoliad 1251/99 y Cyngor)11.

**(7)** Didynner £349 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.

**(8)** Didynner £467 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.

**(9)** Didynner £240 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.

**(10)** Didynner £303 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.

**(11)** Didynner £349 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.

**(12)** Didynner £241 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi unedau cynhyrchu ar gyfer asesu cynhwysedd cynhyrchiol tir amaethyddol a leolir yng Nghymru ac yn nodi'r swm a fernir yn incwm blynyddol net gan bob uned o'r fath ar gyfer y flwyddyn 12 Medi 1999 hyd 11 Medi 2000 yn gynhwysol. Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) 1998 mewn perthynas â Chymru.

Mae gofyn cael asesiad o gynhwysedd cynhyrchiol y tir amaethyddol i benderfynu a yw'r tir dan sylw yn "uned fasnachol o dir amaethyddol" at ddibenion darpariaethau olynu yn Neddf Daliadau Amaethyddol 1986: gweler adrannau 36(3) a 50(2) yn arbennig. Mae "uned fasnachol o dir amaethyddol" yn dir sydd, pan gaiff ei ffermio o dan reolaeth gymwys, â'r gallu i gynhyrchu incwm blynyddol net nad yw'n llai na chyfanswm enillion blynyddol cyfartalog dau weithiwr amaethyddol gwrywaidd amser-llawn ugain oed neu drosodd (paragraff 3 o Atodlen 6 i Ddeddf 1986). Wrth

benderfynu'r ffigur incwm blynyddol hwn, ni ddefnyddir o reidrwydd naill ai'r system ffermio a weithredir ar ddaliad penodol na data hanesyddol o'r daliad hwnnw. Yn hytrach, pryd bynnag y bydd defnydd ffermio penodol a grybwyllir yng ngholofn 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i'r penderfyniad hwn, yr unedau cynhyrchu a'r incwm blynyddol net a bennir yng ngholofnau 2 a 3 yn ôl eu trefn fydd y sail ar gyfer asesu cynhwysedd cynhyrchiol y tir dan sylw.

Mae'r ffigurau incwm blynyddol net yng ngholofn 3 o'r Atodlen yn nodi'r incwm blynyddol net o un uned gynhyrchu. Mewn rhai achosion bydd yr incwm blynyddol net yn deillio o uned a fydd ar y tir am y cyfnod llawn o ddeuddeng mis. Mewn achosion eraill bydd yr incwm blynyddol net yn deillio o uned a fydd ar y tir am ran o'r flwyddyn yn unig, a gall y bydd mwy nag un gylchred gynhyrchu yn y cyfnod o ddeuddeng mis. Bydd yr asesiad o gynhwysedd cynhyrchu'r tir yn cymryd i ystyriaeth yr holl gynhyrchu yn ystod blwyddyn.